29 Mai 2009
DATGANIAD I'R WASG

EISTEDDFOD YR URDD CEREDIGION 2010

Yn theatr Donald Gordon y prynhawn yma, bydd ieuenctid Ceredigion yn gwahodd pawb yn gynnes iawn i Geredigion ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2010, a gaiff ei chynnal yn Llanerchaeron.

O un safle godidog i un arall, bydd Eisteddfod 2010 yn cael ei chynnal ar dir stad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron, ger Aberaeron ym Mae Ceredigion. Meddai Iwan Huws, Cyfarwyddwr Cymru'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol:

"Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn falch iawn o gael croesawu Eisteddfod yr Urdd i Lanerchaeron fis Mai nesa. Bydd yn gyfle gwych i Eisteddfodwyr gyfuno diwrnod yn yr Eisteddfod gydag ymweliad â stâd John Nash, gyda thŷ o'r ddeunawfed ganrif, gerddi rhwng waliau a fferm."

Heddiw bydd disgyblion yn cynrychioli ysgolion uwchradd Ceredigion yn ymuno gydag aelodau' hŷn yr Urdd o'r ardal i wahodd pawb i Ddyffryn Aeron y flwyddyn nesaf. Bydd eu cyflwyniad yn rhoi sylw i chwedlau Ceredigion, yn benodol hanes Cantre'r Gwaelod.

Eifion Evans sydd wedi cynhyrchu'r cyflwyniad, gyda chymorth Mair Jones, Neville Evans a Ceris Potter.

Yn ôl Deian Creunant, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith lleol, mae pawb yn edrych mlaen i groesawu'r Eisteddfod i'r sir:

"Mae yna edrych ymlaen garw yng Ngheredigion, gyda gwirfoddolwyr yn gweithio'n ddiwyd ledled yn sir i godi arian ac ymwybyddiaeth. Mae stondin 2010 ym Mae Caerdydd wedi cael wythnos lwyddiannus dros ben, a bydd y cyflwyniad heddiw yn adlewyrchu'r croeso fydd yn cael ei estyn i bawb i Geredigion fis Mai nesaf."

Meddai Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod:

""Mae'r bwrlwm a'r brwdfrydedd yn y sir yn heintus ac mae ymroddiad a chydweithio'r gwirfoddolwyr yno wedi bod yn arbennig. Gobeithio bydd y cyflwyniad byrlymus heddiw yn flas o'r hyn sydd i ddod mis Mai nesaf."

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2010 ar dir Llanerchaeron yng Ngheredigion, ac Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe.

29 May 2009
PRESS RELEASE

CEREDIGION URDD NATIONAL EISTEDDFOD 2010

This afternoon, in the Donald Gordon theatre, young people from Ceredigion will deliver a presentation extending a warm welcome to the Urdd Eisteddfod to be held in Llanerchaeron in 2010.

From one attractive location to another, the 2010 Eisteddfod will be held on the National Trust estate at Llanerchaeron, near Aberaeron on the Ceredigion coast. Iwan Huws, National Trust Director for Wales says:

"The National Trust is extremely glad to be welcoming the Urdd Eisteddfod to Llanerchaeron next May. It will be a fabulous opportunity for Eisteddfodwyr to combine a day at the Eisteddfod with a visit to John Nash's 18th-century Welsh gentry estate – with house, walled gardens and home farm."

Today pupils representing Ceredigion's secondary schools will join older Urdd members from the area, to invite everyone to the beautiful Aeron Valley next year. Their presentation will feature the myths and legends of Ceredigion, namely the fable of Cantre'r Gwaelod.

Eifion Evans is the director of the presentation, and Mair Jones, Neville Evans and Ceris Potter have all assisted.

Deian Creunant, Chair of the Eisteddfod local Executive Committee conveyed the excitement already felt in Ceredigion,

"There is great anticipation in Ceredigion, with volunteers working diligently all over the county to raise funds and awareness. The 2010 stall in the Eisteddfod at Cardiff Bay has had a great deal of interest throughout the week, and the presentation today will reflect the enthusiasm and welcome extended to everybody to Ceredigion next May."

Aled Sion, the Eisteddfod Director added:

"The excitement and enthusiasm in the county is infectious and the dedication and co-operation of the volunteers has been outstanding. I hope that today's fabulous presentation will be a taste of what is to come next May."

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

Ends

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest youth festivals in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00am - 5.00pm and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in the grounds of Llanerchaeron in Ceredigion in 2010 and in Swansea in 2011.